# CYNLLUN MARCIO TAG UG

## HAF 2016

## CYMDEITHASEG - UNED 2 (NEWYDD)
## 2200N20-1

Fersiwn Cymraeg o'r cynllun marcio cyfrwng Saesneg gwreiddiol yw hwn. Ni chafodd ei ddefnyddio'n ymarferol yn y gynhadledd farcio.

ⓗWJEC CBAC Cyf.

**CYFLWYNIAD**

Defnyddiwyd fersiwn Saesneg gwreiddiol y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2016. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

ⓗWJEC CBAC Cyf.

## TAG CYMDEITHASEG

## CYNLLUN MARCIO HAF 2016

## UNED 2

Arolwg Iechyd Cymru 2014

Casglodd Arolwg Iechyd Cymru 2014 ddata ar iechyd a ffyrdd o fyw oddi wrth sampl **cynrychiadol** o 15,000 o oedolion. Cafodd cartrefi eu dewis o'r Ffeil Gyfeiriadau Cod Post ac, i ddechrau, cafodd cyfweliad strwythuredig ei gynnal gydag un oedolyn ym mhob cartref. Yna cafodd holiaduron hunan-gwblhau eu rhoi i bob oedolyn yn y cartref i'w llenwi. Cafodd holiaduron hunan-gwblhau eu rhoi hefyd i blant, er bod oedolyn yn eu llenwi ar ran plant ifancach. Roedd yn rhaid gofyn i'r oedolion roi caniatâd i'r ymchwilwyr gael mynediad at eu cofnodion meddygol.

Addaswyd o Arolwg Iechyd Cymru 2014

1. (a) Gan ddefnyddio deunydd o'r eitem a gwybodaeth gymdeithasegol, esboniwch ystyr y term **cynrychiadol.** [5]

Dylai atebion gynnwys pwyntiau gwybodaeth cywir ar gyfer band 3 AA1. Dylid cefnogi pwyntiau gydag enghreifftiau a/neu dystiolaeth. Ar gyfer band 3 AA2 dylid cael esboniad clir o'r enghreifftiau/y dystiolaeth.

Cynnwys dangosol

- Diffiniad o'r term cynrychiadol.
- Mae'r cyfranogwyr sy'n ffurfio'r sampl yn nodweddiadol o'r boblogaeth darged.
- Positifyddion yn ei ffafrio.
- Gellir cyffredinoli os yw'r sampl yn un gynrychiadol.
- Yn aml yn gysylltiedig ag ymchwil meintiol.
- Bydd cyfeirio at yr eitem.



ⓗWJEC CBAC Cyf.

| Band | AA1<br>elfennau 2a ac 2b | AA2<br>elfen 1b |
|---|---|---|
| **3** | **3 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn wrth ddefnyddio dulliau ymchwil. | **2 farc**<br>Atebion yn dangos dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth /dulliau ymchwil cymdeithasegol priodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff y rhain eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn.<br>Bydd cyfeirio at yr eitem er mwyn dangos y gallu i ddewis enghreifftiau priodol. |
| **2** | **2 farc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn wrth ddefnyddio dulliau ymchwil. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos peth gallu i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth/ dulliau ymchwil priodol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. |
| 1 | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn wrth ddefnyddio dulliau ymchwil. | |
| | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>DPCP |

(b) Gan ddefnyddio deunydd o'r eitem a gwybodaeth gymdeithasegol, esboniwch **ddau** fater moesegol ddylai gael eu hystyried cyn cael mynediad at gofnodion meddygol. [10]

Dylid cael dau reswm posibl dros AA1 band 3. Gall y rhesymau hyn fod yn ddamcaniaethol, yn ymarferol neu'n fethodolegol a rhaid iddynt gynnwys iaith dechnegol.
Ar gyfer band 3 AA2 rhaid i'r rhesymau gael eu rhoi yn eu cyd-destun a'u hesbonio gan gyfeirio at faterion methodolegol.

Cynnwys dangosol

Materion moesegol, gan gynnwys:

- Cydsyniad gwybodus
- Cyfrinachedd
- Anhysbysrwydd
- Preifatrwydd yr ymatebwyr
- Hawl i dynnu'n ôl

Bydd cyfeirio at yr eitem.



ⓗWJEC CBAC Cyf.

| Band | AA1<br>***elfennau 2a ac 2b*** | AA2<br>***elfen 1b*** |
|---|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **4 marc**<br>Atebion yn dangos gallu manwl i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn.<br><br>Caiff defnydd priodol ei wneud o'r eitem i ddangos dealltwriaeth. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **2-3 marc**<br>Atebion yn dangos peth gallu i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn.<br><br>Bydd peth cyfeirio at yr eitem. |
| **1** | **1-2 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. |
| | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>DPCP |



ⓗWJEC CBAC Cyf.

(c) Gan gyfeirio at yr eitem ac astudiaethau cymdeithasegol, aseswch gryfderau a gwendidau defnyddio holiaduron i gasglu data. [20]

Dylai atebion ddangos y gallu i wneud synnwyr o ddadleuon cymdeithasegol, i gynnig enghreifftiau cymdeithasegol ac i esbonio cysyniadau cymdeithasegol. Mae angen i atebion ddefnyddio terminoleg allweddol. Rhoddir marciau am drafodaeth effeithiol lle mae tystiolaeth o wybodaeth fanwl ac eang. Lle mae'r atebion yn dangos pob gallu i'r safon uchaf, yna byddant yn gyson â Band 4. Fodd bynnag, gall atebion sy'n dangos gwybodaeth ond llai o sgiliau dehongli a thrafod gyflawni Band 4 ar gyfer AA1 ond bandiau is ar gyfer AA2 ac AA3

Cynnwys dangosol

Cryfderau
- Cymharol rad, cyflym a hawdd.
- Mae holiaduron hunan-lenwi'n golygu mai ychydig iawn o gyfraniad sydd gan yr ymchwilwyr.
- Gall pobl eu cwblhau yn eu hamser eu hunain.
- Gellir eu dyblygu.
- Mae dibynadwyedd y data yn debygol o fod yn uchel.
- Positifyddion sy'n edrych am ddata meintiol yn ei ddefnyddio'n aml.
- Bydd data ystadegol yn caniatáu ar gyfer nodi patrymau a thueddiadau a gwneud cymariaethau.
- Maen nhw'n cael eu defnyddio'n aml gyda sampl mawr sy'n debygol o fod yn gynrychiadol ac felly mae'n bosibl gwneud cyffredinoliadau.

Gwendidau
- Isel mewn dilysrwydd.
- Gallai'r gyfradd ymateb fod yn isel.
- Gallai cyfradd ymateb isel arwain at sampl sgiw, ac felly efallai na fydd canlyniadau'n gynrychiadol o'r boblogaeth darged.
- Mae holiaduron yn cael eu llunio'n gymdeithasol a gallent adlewyrchu gwerthoedd a buddiannau'r ymchwilydd.
- Mae'n well gan ddeongladwyr ddata ansoddol.

Dylid cyfeirio at astudiaethau cymdeithasegol er mwyn dangos rhai o'r pwyntiau a wnaed. Er enghraifft Charles (2008), Gordon (2000), Bennett (2009), Bowles a Gintis (1976), Allen a Dowling (1988)



ⓗWJEC CBAC Cyf.

| Band | AA1<br>***elfennau 1a ac 1b*** | AA2<br>***elfen 1a*** | AA3<br>***llinynnau 1-3*** |
|---|---|---|---|
| **4** | **8-9 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **5 marc**<br>Atebion yn dangos dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff y rhain eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **6 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon manwl, trefnus a rhesymegol. Caiff barn a chasgliadau rhesymegol eu cynnig yn seiliedig ar werthuso eglur o’r damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth berthnasol gafodd ei harchwilio. |
| **3** | **5-7 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **2-3 marc**<br>Atebion yn dangos peth dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff rhai ohonynt eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **4-5 marc**<br>Atebion yn dangos rhai dadleuon trefnus a rhesymegol. Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos peth gwerthuso o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| **2** | **2-4 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **2 farc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **2-3 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon sylfaenol. Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| **1** | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu cyfyngedig i ddethol a/neu ddehongli a/neu gymhwyso damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon cyfyngedig. Bydd unrhyw farn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso cyfyngedig o unrhyw ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd ei harchwilio. |
| | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>DPCP |



ⓗWJEC CBAC Cyf.

Cynllun marcio Adran B

2. (a) (i) Rhowch grynodeb o gynnwys y graff sy'n dangos y cyfraddau cyfranogiad mewn addysg uwch. [10]

Dylai atebion gynnwys pwyntiau cywir ar gyfer band 3 AA1 a ddylai gael eu cefnogi gan ddata o'r graff. Ar gyfer band 3 AA2 dylid cael dehongliad clir o'r data.

Cynnwys dangosol

- Disgwyliwch weld cyfeiriad at amrywiaeth o bwyntiau sy'n ymwneud â phatrymau cyfranogiad gwahanol grwpiau ethnig.
- Efallai fod cyfeiriad at rywedd.
- Dylai pwyntiau a wneir gael eu cefnogi gan ystadegau cywir wedi eu tynnu o'r data.

| **Band** | **AA1<br>elfennau 1a ac 1b** | **AA2<br>elfen 1a** |
|---|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o dystiolaeth sy'n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **4 marc**<br>Atebion yn dangos gallu manwl i ddethol, cymhwyso a dehongli'r dystiolaeth yng nghyd-destun y cwestiwn.<br>Caiff defnydd priodol ei wneud o'r eitem i ddangos dealltwriaeth. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dystiolaeth sy'n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **2-3 marc**<br>Atebion yn dangos peth gallu i ddethol, cymhwyso a dehongli'r dystiolaeth yng nghyd-destun y cwestiwn.<br>Bydd peth cyfeirio at yr eitem. |
| **1** | **1-2 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r dystiolaeth sy'n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli'r dystiolaeth yng nghyd-destun y cwestiwn. |
| | **0 marc**<br>NRSP | **0 marc**<br>NRSP |



ⓗWJEC CBAC Cyf.

2. (a) (ii) Esboniwch **ddau** reswm cymdeithasegol dros y berthynas rhwng rhywedd a chyrhaeddiad addysgol. [15]

Dylid cael dau reswm cymdeithasegol gyda defnydd effeithiol o iaith gymdeithasegol (band 4 AA1). Bydd y ddau reswm wedi eu cefnogi gan dystiolaeth gymdeithasegol (band 4 AA2). Mae dau reswm dros yr un patrwm/tuedd yn dderbyniol.

Cynnwys dangosol

Dylid cael dau reswm gwahanol (a all gael eu cysylltu â'r data yn y graff) fel:

- Y newid yn rôl menywod a disgwyliadau benywaidd gyda chyfeiriad efallai at fenyweiddio gwaith
- Ffactorau diwylliannol fel ethnigrwydd a allai effeithio ar ddisgwyliadau a chyfleoedd
- Y diwylliant o wrywdod efallai gan gyfeirio at fechgyn dosbarth gweithiol gwyn neu fechgyn du.
- Dylid cael cyfeiriad at dystiolaeth empirig briodol a/neu enghreifftiau.

| **Band** | **AA1**<br>**elfennau 1a ac 1b** | **AA2**<br>**elfen 1a** |
|---|---|---|
| **4** | **9-10 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **5 marc**<br>Atebion yn dangos gallu manwl i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y cwestiwn. |
| **3** | **6 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **3-4 marc**<br>Atebion yn dangos peth gallu i ddethol, cymhwyso a dehongli tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y cwestiwn. |
| **2** | **3-5 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **2 farc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y cwestiwn. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu cyfyngedig i ddethol a/neu ddehongli a/neu gymhwyso damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol yng nghyd-destun y cwestiwn. |
| | **0 marc**<br>NRSP | **0 marc**<br>NRSP |



ⓗWJEC CBAC Cyf.

2. (b) Amlinellwch ac aseswch y safbwynt bod addysg yn y DU gyfoes yn feritocrataidd. [30]

Bydd atebion yn llunio barn am gysyniadau, damcaniaethau, pynciau llosg neu ddadleuon cymdeithasegol. Bydd yr ateb yn canolbwyntio ar y ddadl yn y cwestiwn. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth/damcaniaethau a chysyniadau cymdeithasegol cefnogol yn effeithiol. Lle mae'r atebion yn dangos pob gallu i'r safon uchaf yna byddant yn gyson â Band 4.

Fodd bynnag, gall atebion sy'n dangos gwybodaeth ond llai o sgiliau asesu, barn a gwerthuso gyflawni Band 4 ar gyfer AA1 ond bandiau is ar gyfer AA2 ac AA3.

Cynnwys dangosol

- Dylid cael dealltwriaeth glir o'r safbwynt swyddogaethol bod addysg yn feritocrataidd.
- Ystyriaeth o'r syniad allweddol hwn gyda thystiolaeth ategol a thrywyddau dadl sy'n gwrthwynebu ei gilydd.
- Addysg yn hanfodol ar gyfer pennu rolau: Davies a Moore ac mae'n deg
- Addysg fel rhywbeth sy'n gwasanaethu anghenion y cyfoethog; Syniadau Marcsaidd
- Syniadau'r Dde Newydd yn cefnogi'r safbwynt swyddogaethol fel y rhai a gyflwynwyd gan Murray, Hernstein, Saunders
- Defnyddio safbwyntiau eraill i feirniadu syniadau swyddogaethol am feritocratiaeth fel Marcsaeth, ffeministiaeth, rhyngweithedd.
- Gellir defnyddio damcaniaeth labelu fel offeryn gwerthuso i gwestiynu dilysrwydd y safbwynt.
- Dylai syniadau gael eu cymharu a'u gwerthuso gan gyfeirio at dystiolaeth gefnogol.



ⓗWJEC CBAC Cyf.

| Band | AA1<br>elfennau 1a ac 1b | AA2<br>elfen 1a | AA3<br>llinynnau 1-3 |
|---|---|---|---|
| 4 | **11-13 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **5 marc**<br>Atebion yn dangos dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff y rhain eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **10-12 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon manwl, trefnus a rhesymegol. Caiff barn a chasgliadau rhesymegol eu cynnig yn seiliedig ar werthuso eglur o'r damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth berthnasol gafodd ei harchwilio. |
| 3 | **7-10 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **3-4 marc**<br>Atebion yn dangos peth dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff rhai ohonynt eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **7-9 marc**<br>Atebion yn dangos rhai dadleuon trefnus a rhesymegol.<br>Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos peth gwerthuso o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| 2 | **4-6 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **2 farc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **4-6 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon sylfaenol.<br>Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| 1 | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu cyfyngedig i ddethol a/neu ddehongli a/neu gymhwyso damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon cyfyngedig.<br>Bydd unrhyw farn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso cyfyngedig o unrhyw ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| | **0 marc**<br>NRSP | **0 marc**<br>NRSP | **0 marc**<br>NRSP |



ⓗWJEC CBAC Cyf.

2. (c) Aseswch effaith labelu ar gyrhaeddiad mewn addysg. [30]

Bydd atebion yn llunio barn am werth cysyniadau, damcaniaethau, pynciau llosg neu ddadleuon cymdeithasegol. Bydd yr ateb yn canolbwyntio ar y ddadl yn y cwestiwn. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth/damcaniaethau a chysyniadau cymdeithasegol cefnogol yn effeithiol. Lle mae'r atebion yn dangos pob gallu i'r safon uchaf yna byddant yn gyson â Band 4.

Fodd bynnag, gall atebion sy'n dangos gwybodaeth ond llai o sgiliau asesu, barn a gwerthuso gyflawni Band 4 ar gyfer AA1 ond bandiau is ar gyfer AA2 ac AA3.

Cynnwys dangosol

- Dylai fod dealltwriaeth glir o'r safbwynt yn defnyddio damcaniaeth ac ymchwil dosbarth i gefnogi'r safbwynt
- Efallai y bydd cyfeiriad at amrywiadau o ran effaith labelu ar gyfer gwahanol blant a gellir cyfeirio at is-ddiwylliannau gwrth-ysgol efallai waith Fuller neu Mirza
- Gellir defnyddio damcaniaethau amgen i ddadlau yn erbyn effaith labelu ac am bwysigrwydd ffactorau eraill fel materol, diwylliannol, strwythurol
- Effaith labelu ar wahanol grwpiau cymdeithasol; rhywedd, ethnig, dosbarth
- Labelu a hiliaeth sefydliadol; Wright, Connolly, Mac an Ghaill, Gilborn ac Youdell. Adroddiad OFSTED ar agweddau cadarnhaol tuag at addysg ymysg rhieni Bangladeshi, polisïau cymdeithasol o ran cynhwysiad.
- Cwricwlwm ethnoganolog
- Defnyddio syniadau Marcsaidd a thystiolaeth i werthuso'r safbwynt
- Gellid defnyddio syniadau swyddogaethol a gwaith Davies a Moore fel rhan o'r ddadl



ⓗWJEC CBAC Cyf.

| Band | **AA1**<br>**elfennau 1a ac 1b** | **AA2**<br>**elfen 1a** | **AA3**<br>**llinynnau 1-3** |
|---|---|---|---|
| **4** | **11-13 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **5 marc**<br>Atebion yn dangos dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff y rhain eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **10-12 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon manwl, trefnus a rhesymegol. Caiff barn a chasgliadau rhesymegol eu cynnig yn seiliedig ar werthuso eglur o'r damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth berthnasol gafodd eu harchwilio. |
| **3** | **7-10 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **3-4 marc**<br>Atebion yn dangos peth dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff rhai ohonynt eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **7-9 marc**<br>Atebion yn dangos rhai dadleuon trefnus a rhesymegol.<br>Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos peth gwerthuso o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| **2** | **4-6 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **2 farc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **4-6 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon sylfaenol.<br>Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| **1** | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu cyfyngedig i ddethol a/neu ddehongli a/neu gymhwyso damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon cyfyngedig.<br>Bydd unrhyw farn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso cyfyngedig o unrhyw ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| | **0 marc**<br>NRSP | **0 marc**<br>NRSP | **0 marc**<br>NRSP |



ⓗWJEC CBAC Cyf.

3. (a) (i) Rhowch grynodeb o gynnwys y graff sy'n dangos y defnydd o wefannau rhwydweithio cymdeithasol. [10]

Dylai atebion gynnwys pwyntiau cywir ar gyfer band 3 AA1 a ddylai gael eu cefnogi gan ddata o'r graff. Ar gyfer band 3 AA2 dylid cael dehongliad clir o'r data.

Cynnwys dangosol
Disgwyliwch weld cyfeiriad at amrywiaeth o bwyntiau sy'n ymwneud â gwylio'r teledu.

- Gellir cyfeirio at wahaniaethau o ran defnydd yn nhermau oedran fel ym mhob categori mae'r defnydd isaf gan y grŵp oedran hynaf
- Gellir cyfeirio at y gwahaniaethau o ran defnydd, rhwng gwahanol lwyfannau fel y defnydd uwch o Instagram a twitter ymhlith y ddau grŵp oedran ieuengaf
- Dylai pwyntiau a wneir gael eu cefnogi gan ystadegau cywir wedi eu tynnu o'r data.

| Band | AA1<br>elfennau 1a ac 1b | AA2<br>elfen 1a |
|---|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o dystiolaeth sy’n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **4 marc**<br>Atebion yn dangos gallu manwl i ddethol, cymhwyso a dehongli'r dystiolaeth yng nghyd-destun y cwestiwn.<br>Caiff defnydd priodol ei wneud o'r eitem i ddangos dealltwriaeth. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dystiolaeth sy’n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **2-3 marc**<br>Atebion yn dangos peth gallu i ddethol, cymhwyso a dehongli'r dystiolaeth yng nghyd-destun y cwestiwn.<br>Bydd peth cyfeirio at yr eitem. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r dystiolaeth sy’n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli'r dystiolaeth yng nghyd-destun y cwestiwn. |
| | **0 marc**<br>NRSP | **0 marc**<br>NRSP |



ⓗWJEC CBAC Cyf.

3. (a) (ii) Esboniwch **ddau** reswm cymdeithasegol dros y berthynas rhwng oedran a'r defnydd o wefannau rhwydweithio cymdeithasol.[15]

Dylid cael dau reswm cymdeithasegol gyda defnydd effeithiol o iaith gymdeithasegol (band 4 AA1). Bydd y ddau reswm wedi eu cefnogi gan dystiolaeth gymdeithasegol (band 4 AA2). Mae dau reswm dros yr un patrwm/tuedd yn dderbyniol.

Cynnwys dangosol

Dylid cael dau reswm gwahanol (a all gael eu cysylltu â'r data yn y tabl) megis:

- Diwylliant; efallai y bydd grwpiau oedran hŷn yn llai cyfarwydd â'r rhyngrwyd fel rhan o fywyd bob dydd neu lai o hyder
- Mae defnydd y grŵp oedran ieuengaf wedi cynyddu sy'n adlewyrchu newid diwylliannol.
- Cymdeithas dechnolegol a newid perthnasoedd; rhithgymunedau o ganlyniad
- Mae gan grwpiau iau fwy o fynediad at fathau eraill o gyfryngau, Gunter a McAleer. Maent yn fwy tueddol i bwysau cyfoedion

| Band | AA1<br>*elfennau 1a ac 1b* | AA2<br>*elfen 1a* |
|---|---|---|
| **4** | **9-10 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **5 marc**<br>Atebion yn dangos gallu manwl i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y cwestiwn. |
| **3** | **6-8 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **3-4 marc**<br>Atebion yn dangos peth gallu i ddethol, cymhwyso a dehongli tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y cwestiwn. |
| **2** | **3-5 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **2 farc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y cwestiwn. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu cyfyngedig i ddethol a/neu ddehongli a/neu gymhwyso damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol yng nghyd-destun y cwestiwn. |
| | **0 marc**<br>NRSP | **0 marc**<br>NRSP |



ⓗWJEC CBAC Cyf.

3. (b) Gwerthuswch syniadau Marcsaidd am berchenogaeth a rheolaeth y cyfryngau yn y gymdeithas gyfoes. [30]

Bydd atebion yn llunio barn am gysyniadau, damcaniaethau, pynciau llosg neu ddadleuon cymdeithasegol. Bydd yr ateb yn canolbwyntio ar y ddadl yn y cwestiwn. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth/damcaniaethau a chysyniadau cymdeithasegol cefnogol yn effeithiol. Lle mae'r atebion yn dangos pob gallu i'r safon uchaf yna byddant yn gyson â Band 4.

Fodd bynnag, gall atebion sy'n dangos gwybodaeth ond llai o sgiliau asesu, barn a gwerthuso gyflawni Band 4 ar gyfer AA1 ond bandiau is ar gyfer AA2 ac AA3.

Cynnwys dangosol

- Syniadau Marcsaidd ynghylch perchenogaeth; crynhoad, Bagdikian, Curran
- Integreiddio llorweddol, arwahanu fertigol, cydgyfeirio
- Arallgyfeirio, cyd-dyriad, synergedd a gefnogir gan enghreifftiau a sylwebaeth
- Gwaith y Glasgow Media Group; hegemoni ddiwylliannol, gosod yr agenda
- Cyfryngau newydd a'r effaith fel rhaniad dosbarth, rhaniad oedran
- Atgyfnerthu pŵer elît drwy gyfryngau newydd; Cornford a Robins
- Syniadau gwrthwynebol; Plwraliaeth, Whale, Darlledu gwasanaeth cyhoeddus
- Rheolaethau gwladwriaeth
- Amrywiaeth gyfryngol a mynediad at wybodaeth ar raddfa fyd-eang
- Mwy o ddewis ond llai o ddewis o ran ansawdd a chynnwys; Harvey
- Dylai syniadau gael eu cymharu a'u gwerthuso gan gyfeirio at dystiolaeth gefnogol.



ⓗWJEC CBAC Cyf.

| Band | AA1<br>elfennau 1a ac 1b | AA2<br>elfen 1a | AA3<br>llinynnau 1-3 |
|---|---|---|---|
| 4 | **11-13 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **5 marc**<br>Atebion yn dangos dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff y rhain eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **10-12 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon manwl, trefnus a rhesymegol. Caiff barn a chasgliadau rhesymegol eu cynnig yn seiliedig ar werthuso eglur o'r damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth berthnasol gafodd ei harchwilio. |
| 3 | **7-10 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **3-4 marc**<br>Atebion yn dangos peth dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff rhai ohonynt eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **7-9 marc**<br>Atebion yn dangos rhai dadleuon trefnus a rhesymegol.<br>Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos peth gwerthuso o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| 2 | **4-6 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **2 farc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **4-6 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon sylfaenol.<br>Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| 1 | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu cyfyngedig i ddethol a/neu ddehongli a/neu gymhwyso damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon cyfyngedig.<br>Bydd unrhyw farn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso cyfyngedig o unrhyw ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| | **0 marc**<br>NRSP | **0 marc**<br>NRSP | **0 marc**<br>NRSP |



ⓗWJEC CBAC Cyf.

3. (c) Aseswch pa mor ddefnyddiol yw'r model Chwistrell Hypodermig o effeithiau'r cyfryngau. [30]

Bydd atebion yn llunio barn am gysyniadau, damcaniaethau, pynciau llosg neu ddadleuon cymdeithasegol. Bydd yr ateb yn canolbwyntio ar y ddadl yn y cwestiwn. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth/damcaniaethau a chysyniadau cymdeithasegol cefnogol yn effeithiol. Lle mae'r atebion yn dangos pob gallu i'r safon uchaf yna byddant yn gyson â Band 4. Fodd bynnag, gall atebion sy'n dangos gwybodaeth ond llai o sgiliau asesu, barn a gwerthuso gyflawni Band 4 ar gyfer AA1 ond bandiau is ar gyfer AA2 ac AA3.

Cynnwys dangosol

- Ni ddylai'r ateb fod yn ddisgrifiad o'r damcaniaethau
- Gall atebion archwilio damcaniaethau'n gronolegol; model chwistrell hypothermig gan ddefnyddio enghreifftiau i asesu gwerth fel Jamie Bulger, saethu Columbine
- Trais efelychu; Bandura, McCabe a Martin
- Dadsensiteiddio; Newson
- Beirniadaethau: Catharsis; Fesbach a Sanger. Sensiteiddio ddim dadsensiteiddio
- Beirniadaethau o fethodoleg ymchwil ac artiffisialrwydd model arbrofol; Gauntlett
- Plant fel defnyddwyr soffistigedig o'r cyfryngau; Buckingham, Wood, Trend
- Defnyddio astudiaethau i feirniadu Model Chwistrell Hypodermig; Cumberbach, Charlton, Rhodes
- Dulliau cynulleidfa weithredol; Llif dau gam Katz a Lazarsfeld
- Model defnydd a boddhad; Blumer a McQuail, Wood. Dylid defnyddio cefnogaeth am y ddamcaniaeth hon ar gyfer beirniadu Model Chwistrell Hypodermig
- Model dadansoddi derbyniad; Morley
- Gellid defnyddio model effeithiau diwylliannol i gynnig rhywfaint o gefnogaeth i'r egwyddorion a ymgorfforir yn y Model Chwistrell Hypodermig
- Dylai syniadau gael eu cymharu a'u hasesu gan gyfeirio at dystiolaeth gefnogol.



ⒽWJEC CBAC Cyf.

| Band | AA1<br>elfennau 1a ac 1b | AA2<br>elfen 1a | AA3<br>llinynnau 1-3 |
|---|---|---|---|
| 4 | **11-13 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **5 marc**<br>Atebion yn dangos dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff y rhain eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. | **10-12 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon manwl, trefnus a rhesymegol. Caiff barn a chasgliadau rhesymegol eu cynnig yn seiliedig ar werthuso eglur o'r damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth berthnasol gafodd eu harchwilio. |
| 3 | **7-10 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **3-4 marc**<br>Atebion yn dangos peth dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol.<br>Caiff rhai ohonynt eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. | **7-9 marc**<br>Atebion yn dangos rhai dadleuon trefnus a rhesymegol. Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos peth gwerthuso o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| 2 | **4-6 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **2 farc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. | **4-6 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon sylfaenol.<br>Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| 1 | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu cyfyngedig i ddethol a/neu ddehongli a/neu gymhwyso damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol yng nghyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon cyfyngedig.<br>Bydd unrhyw farn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso cyfyngedig o unrhyw ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth |
| | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>NRSP |



ⓗWJEC CBAC Cyf.

4. (a) (i) Rhowch grynodeb o gynnwys y graff sy'n dangos y berthynas rhwng y proffil oedran a chrefyddau gwahanol. [10]

Dylai atebion gynnwys pwyntiau cywir ar gyfer band 3 AA1 a ddylai gael eu cefnogi gan ddata o'r graff. Ar gyfer band 3 AA2 dylid cael dehongliad clir o'r data.

Cynnwys dangosol
Disgwyliwch weld cyfeiriad at amrywiaeth o bwyntiau yn ymwneud â phwysigrwydd crefydd i fywyd pob dydd.

- Gellir cyfeirio at wahaniaethau ym mhob crefydd sy'n ymwneud ag oedran
- Gellir cyfeirio at y crefyddau lle mae oedran i'w weld yn fwyaf arwyddocaol fel Bwdhaeth a Moslemaidd
- Dylai pwyntiau a wneir gael eu cefnogi gan ystadegau cywir wedi'u tynnu o'r data.

| Band | AA1<br>*elfennau 1a ac 1b* | AA2<br>*elfen 1a* |
|---|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o dystiolaeth sy’n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **4 marc**<br>Atebion yn dangos gallu manwl i ddethol, cymhwyso a dehongli'r dystiolaeth yng nghyd-destun y cwestiwn.<br>Caiff defnydd priodol ei wneud o'r eitem i ddangos dealltwriaeth. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dystiolaeth sy’n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **2-3 marc**<br>Atebion yn dangos peth gallu i ddethol, cymhwyso a dehongli'r dystiolaeth yng nghyd-destun y cwestiwn.<br>Bydd peth cyfeirio at yr eitem. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r dystiolaeth sy’n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli'r dystiolaeth yng nghyd-destun y cwestiwn. |
| | **0 marc**<br>NRSP | **0 marc**<br>NRSP |



ⓗWJEC CBAC Cyf.

4. (a) *(ii)* Esboniwch **ddau** reswm cymdeithasegol dros y berthynas rhwng oedran a chrefydd. [15]

Dylid cael dau reswm cymdeithasegol gyda defnydd effeithiol o iaith gymdeithasegol (band 4 AA1). Bydd y ddau reswm wedi eu cefnogi gan dystiolaeth gymdeithasegol (band 4 AA2). Mae dau reswm dros yr un patrwm/tuedd yn dderbyniol.

Cynnwys dangosol

Dylid cael dau reswm gwahanol (a all gael eu cysylltu â'r data yn y tabl) megis:
- gallai 65+ fod yn grŵp llai
- Gall rhai oedrannau fyfyrio mwy ar ystyr bywyd; 25-49
- 0-24 yw'r grŵp sydd fwyaf tebygol o ddilyn eu rhieni Drury Sikh
- Mae llai o ddiddordeb mewn crefydd gan rai grwpiau oedran iau Modood

| Band | AA1<br>elfennau 1a ac 1b | AA2<br>elfen 1a |
|---|---|---|
| 4 | **9-10 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **5 marc**<br>Atebion yn dangos gallu manwl i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y cwestiwn. |
| 3 | **6-8 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **3-4 marc**<br>Atebion yn dangos peth gallu i ddethol, cymhwyso a dehongli tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y cwestiwn. |
| 2 | **3-5 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **2 farc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y cwestiwn. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu cyfyngedig i ddethol a/neu ddehongli a/neu gymhwyso damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol yng nghyd-destun y cwestiwn. |
| | **0 marc**<br>NRSP | **0 marc**<br>NRSP |



ⓗWJEC CBAC Cyf.

4. (b) Gwerthuswch y safbwynt bod crefydd yn gwanhau yn y DU gyfoes. [30]

Bydd atebion yn llunio barn am gysyniadau, damcaniaethau, pynciau llosg neu ddadleuon cymdeithasegol. Bydd yr ateb yn canolbwyntio ar y ddadl yn y cwestiwn. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth/damcaniaethau a chysyniadau cymdeithasegol cefnogol yn effeithiol. Lle mae’r atebion yn dangos pob gallu i'r safon uchaf yna byddant yn gyson â Band 4. Fodd bynnag, gall atebion sy'n dangos gwybodaeth ond llai o sgiliau asesu, barn a gwerthuso gyflawni Band 4 ar gyfer AA1 ond bandiau is ar gyfer AA2 ac AA3.

Cynnwys dangosol

- Dylid nodi'r ddadl seciwlareiddio; Wilson, Glasner sy'n trafod gwahanol lefelau
- Mae astudiaethau wedi cael problemau'n penderfynu a yw cymdeithas yn fwy seciwlar oherwydd bod amrywiadau rhwng ac o fewn grwpiau; mae arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain yn dangos bod oedran, ethnigrwydd a rhywedd yn newidynnau
- Sut rydym yn mesur pwysigrwydd crefydd?; Hamilton, Williams, Shiner, Glock a Stark
- Swyddogaethwyr sy'n ystyried crefydd fel ffordd o osod gwerthoedd a glud cymdeithasol. Durkheim, Malinowski, Parsons, ac fel y cyfryw yn dal i fod yn bwysig
- Tystiolaeth o seciwlareiddio; mynychu'r eglwys, arolygon agwedd, aelodau eglwysig, llai o briodasau Eglwys, y clerigwyr yn colli eu grym; Bruce
- Safbwyntiau eraill yn nodi crefydd fel cyfrwng newid a thwf mudiadau crefyddol newydd; Greeley, Nelson
- Rhesymoli, ymddieithrio a phlwraliaeth grefyddol
- Ond mae Davie'n awgrymu; credu heb berthyn, eglwysi efengylaidd Newydd; Thompson
- Stark a Bainbridge; y gylchred.
- Bauman a Giddens; crefydd yn bwysicach
- Dylai syniadau gael eu cymharu a'u gwerthuso gan gyfeirio at dystiolaeth gefnogol.



ⓗWJEC CBAC Cyf.

| Band | AA1<br>elfennau 1a ac 1b | AA2<br>elfen 1a | AA3<br>llinynnau 1-3 |
|---|---|---|---|
| 4 | **11-13 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **5 marc**<br>Atebion yn dangos dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff y rhain eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **10-12 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon manwl, trefnus a rhesymegol. Caiff barn a chasgliadau rhesymegol eu cynnig yn seiliedig ar werthuso eglur o'r damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth berthnasol gafodd ei harchwilio. |
| 3 | **7-10 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **3-4 marc**<br>Atebion yn dangos peth dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff rhai ohonynt eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **7-9 marc**<br>Atebion yn dangos rhai dadleuon trefnus a rhesymegol.<br>Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos peth gwerthuso o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| 2 | **4-6 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **2 farc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **4-6 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon sylfaenol.<br>Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| 1 | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu cyfyngedig i ddethol a/neu ddehongli a/neu gymhwyso damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon cyfyngedig.<br>Bydd unrhyw farn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso cyfyngedig o unrhyw ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>NRSP | **0 marc**<br>NRSP |



ⓗWJEC CBAC Cyf.

4. (c) Aseswch esboniadau cymdeithasegol am y berthynas rhwng rhywedd a crefydd. [30]

Bydd atebion yn llunio barn am gysyniadau, damcaniaethau, pynciau llosg neu ddadleuon cymdeithasegol. Bydd yr ateb yn canolbwyntio ar y ddadl yn y cwestiwn. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth/damcaniaethau a chysyniadau cymdeithasegol cefnogol yn effeithiol. Lle mae’r atebion yn dangos pob gallu i'r safon uchaf yna byddant yn gyson â Band 4. Fodd bynnag, gall atebion sy'n dangos gwybodaeth ond llai o sgiliau asesu, barn a gwerthuso gyflawni Band 4 ar gyfer AA1 ond bandiau is ar gyfer AA2 ac AA3.

Cynnwys dangosol

- Dealltwriaeth glir o'r berthynas ac ystyriaeth o esboniadau cymdeithasegol gwahanol
- Mae ffeministiaid wedi codi'r syniad bod dynion yn tra-arglwyddiaethu mewn crefyddau gydag enghreifftiau fel y canlynol yn cefnogi; delweddau o Dduw; Davie
- Mater rhywioldeb yn y rhan fwyaf o grefyddau; Bird, Turner, syniadau patriarchaidd
- Menywod mewn crefyddau; Simon a Nadell
- Ffeministiaeth; Daly, Simone de Beauvoir: gormes menywod a thra-arglwyddiaethu patriarchaidd, El Sadaawi
- Feliau; Watson….ystyr
- Safbwyntiau eraill; Crynwriaeth, Badawi, Ahmed
- Cyfraniad menywod mewn Mudiadau Anghrefyddol; Bruce
- Cyfraniad menywod at dwf ffwndamentaliaeth; Cohen a Kennedy. Iddewiaeth; Woodhead a Heelas
- Dylai syniadau gael eu cymharu a'u hasesu gan gyfeirio at dystiolaeth gefnogol.



ⓗWJEC CBAC Cyf.

| Band | AA1<br>*elfennau 1a ac 1b* | AA2<br>*elfen 1a* | AA3<br>*llinynnau 1-3* |
|---|---|---|---|
| 4 | **11-13 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **5 marc**<br>Atebion yn dangos dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff y rhain eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **10-12 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon manwl, trefnus a rhesymegol. Caiff barn a chasgliadau rhesymegol eu cynnig yn seiliedig ar werthuso eglur o'r damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth berthnasol gafodd ei harchwilio. |
| 3 | **7-10 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **3-4 marc**<br>Atebion yn dangos peth dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff rhai ohonynt eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **7-9 marc**<br>Atebion yn dangos rhai dadleuon trefnus a rhesymegol.<br>Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos peth gwerthuso o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| 2 | **4-6 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **2 farc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **4-6 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon sylfaenol.<br>Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| 1 | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu cyfyngedig i ddethol a/neu ddehongli a/neu gymhwyso damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon cyfyngedig.<br>Bydd unrhyw farn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso cyfyngedig o unrhyw ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| | **0 marc**<br>NRSP | **0 marc**<br>NRSP | **0 marc**<br>NRSP |



ⓗWJEC CBAC Cyf.